YR EGLWYS YNG NGHYMRU — THE CHURCH IN WALES

# Sero net yw'r nod: Ble i ddechrau?

**Yn sgil ei haddewid i gyrraedd carbon sero net erbyn 2030, mae'r Eglwys yng Nghymru wedi pennu targed beiddgar ac uchelgeisiol. Bydd cyflawni'r targed hwnnw yn dipyn o her, ond wrth wynebu tasg aruthrol fawr, yr ateb yw ei rhannu'n gamau llai. Gallwch ddechrau gyda chyflawniadau cyflym a symud ymlaen i fentrau mwy sy'n fwy uchelgeisiol. Anogwch bobl i'ch cefnogi gan ddangos y manteision amlwg ar hyd y ffordd. Yn anad dim, mae angen sbarduno gweithredu a dangos bob tro bod targedau sero net yn sicrhau newid go iawn, a'u bod yn fwy na rhethreg a bwriadau da.**

Isod, mae deg pwynt yn awgrymu ffyrdd o ddechrau ar y gwaith, ond nid rhestr derfynol yw hon. Mae angen bod yn greadigol a chodi llais. Anogwch syniadau newydd gan sbarduno newid yn eich cymuned a thu hwnt.

Rydym yn wynebu argyfwng hinsawdd ac mae'r Eglwys yng Nghymru yn awyddus i fod ar flaen yn gad wrth newid. Dylai popeth a wnawn gael ei lywio gan yr egwyddor:

*"Mae gwneud yn well na dweud"*



# 10 camau ar gyfer llwyddo ...

## 1 Sefydlu grŵp eco a phenodi prif hyrwyddwr hinsawdd

Dylem weld yr argyfwng hinsawdd fel rhan o'n cenhadaeth efengylaidd. Mae angen hyrwyddwyr arnom i ledaenu'r neges, i ysgogi newid ac i ddangos ein cariad at holl greadigaeth Duw.

Ewch ati i greu grŵp eco ar gyfer eich Eglwys neu Ardal Weinidogaeth. Chwiliwch am bobl yn eich cymuned gyfagos a thu hwnt a all eich helpu, er enghraifft, rhywun â sgiliau neu brofiad perthnasol mewn unrhyw sector. Bydd pobl sydd ag arbenigedd amgylcheddol, arbenigwyr ynni, adeiladwyr, plymwyr, trydanwyr, cyfathrebwyr digidol a chyfryngau cymdeithasol yn ddefnyddiol. Ond mae angerdd yn bwysig hefyd. Chwiliwch am bobl sy'n poeni am yr amgylchedd a'u cynnwys ymhlith eich hyrwyddwyr hefyd.

Ar ôl ffurfio'r grŵp, anogwch nhw i gyfarfod yn rheolaidd. Gallech benodi arweinydd i gydgysylltu camau gweithredu, a gofyn iddo fod yn bwynt cyswllt cyhoeddus ar gyfer lledaenu gwybodaeth a rhowch nodau ac amserlenni penodol iddynt i'w cyflawni.

## 2 Datgan argyfwng hinsawdd a chreu polisi amgylcheddol

Rydym ni'n byw mewn argyfwng hinsawdd ac mae angen inni ddweud hynny. Lluniwch ddatganiad sy'n cydnabod realiti ein sefyllfa a chyhoeddi'r neges drwy'r cyfryngau sydd gennych chi.

Gyda chymorth eich grŵp eco, lluniwch bolisi amgylcheddol. Dylai'r polisi fod yn glir, yn gryno gyda nodau pendant. Nid cynllun cynhwysfawr ond cyfres o addewidion y gellir eu cyfleu'n hawdd mewn pwyntiau bwled. Mae angen iddo fod yn uchelgeisiol ond dylai fod yn gyraeddadwy gyda thargedau clir. "Byddwn yn lleihau'r trydan a ddefnyddiwn 50% erbyn Rhagfyr 2024" er enghraifft.

Gwnewch yn siŵr bod y polisi'n cael lle amlwg. Gallwch ei roi ar yr hysbysfwrdd, ei ddosbarthu ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar y wefan. Mae angen i bawb ei weld, a gofynnwch am adborth ac annog gwirfoddolwyr.

## 3 Cofrestru gydag *A Rocha Eco Church*

Ar ôl casglu pobl ynghyd a llunio polisi, nawr yw'r amser i osod meincnod sy'n dangos eich sefyllfa ar hyn o bryd a ble dylech chi fynd nesaf: ecochurch.arocha.org.uk

Cofrestrwch eich eglwys gydag A Rocha Eco Church ac yna cewch gyfle i ddysgu am lawer o gamau amgylcheddol y gall eich eglwys eu cymryd mewn meysydd fel addoli ac addysgu, rheoli adeiladau'r eglwys, rheoli tir yr eglwys, ac ymgysylltu'n gymunedol ac yn fyd-eang.

Nid oes angen talu am gofrestru. Ar ôl i chi gyflwyno'ch manylion gallwch lenwi arolwg i asesu ble mae eich eglwys ar y raddfa eco-eglwys. Efallai y gwelwch fod eich eglwys wedi cyflawni digon o gamau'n barod i ennill lefel efydd, arian neu aur. Mae'r wefan yn disgrifio'r camau gofynnol ar gyfer pob lefel cyrhaeddiad ac mae awgrymiadau rhagorol ar gyfer camau ymarferol y gallwch eu cymryd. Mae cyfoeth o adnoddau ar y wefan hefyd i'ch helpu ar eich taith i fod yn niwtral o ran carbon.

## Mesur ôl troed carbon eich eglwys gan ddefnyddio'r Offeryn Ôl Troed Ynni 4

Wrth ddechrau'r daith tuag at fod yn niwtral o ran carbon, rhaid cael syniad cywir o'ch sefyllfa bresennol. Mae angen i chi wybod faint o garbon y mae eich eglwys yn ei ollwng nawr. Dyma fydd llinell sylfaen eich cynllun gweithredu er budd yr hinsawdd ac mae'n sylfaen hanfodol ar gyfer llwyddo.

Mae cyfrifiannell ar-lein yr Eglwys yng Nghymru, sef yr Offeryn Ôl Troed Ynni (EFT), ar gael erbyn hyn a gall eich helpu i gynhyrchu'r data sydd ei angen arnoch. Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw nodi eich defnydd o ynni fel y mae'n ymddangos ar eich biliau cyfleustodau am y 12 mis blaenorol a rhywfaint o wybodaeth am bresenoldeb cyfartalog yn yr eglwys drwy gydol y flwyddyn.

Unwaith y bydd y data wedi'i fewnbynnu i'r Offeryn Ôl Troed Ynni, bydd gwerth carbon clir a chywir yn cael ei gynhyrchu ar gyfer allyriadau carbon eich eglwys. Gallwch ei ddefnyddio i weld ble gellir gwneud y gwahaniaethau mwyaf. Gallwch weld sut rydych chi'n defnyddio ynni o gymharu ag eglwysi eraill hefyd.

Am ragor o wybodaeth gweler: https://eft-wales.parishreturns.info

## Llunio cynllun gweithredu er budd yr hinsawdd 5

Lluniwch gynllun gweithredu yn seiliedig ar eich polisi amgylcheddol a'ch data ôl troed carbon. Canolbwyntiwch ar dasgau, themâu a chamau gweithredu penodol a fydd yn creu manteision hawdd, tymor byr i ymgysylltu ac annog gweithredu pellach. Mae llwyddiant yn esgor ar fwy o lwyddiant.

Gall y lefelau cyrhaeddiad Eco-Eglwys roi set glir o gamau gweithredu a gwobrwyon gweladwy i chi. Mae anelu at ddyfarniad efydd, arian neu aur yn gallu helpu i roi ffocws ac i uno eich tîm.

Dylai eich cynllun fod yn glir iawn ynglŷn â'r math o gamau i'w cymryd, yr amserlenni ar gyfer gweithredu, y canlyniadau disgwyliedig, a phwy fydd yn gyfrifol am y gwaith. Cofiwch nodi hefyd trwy ba gyfrwng ac i bwy y byddwch yn rhoi gwybod am eich cynllun.

... Cofiwch, mae gwneud yn well na dweud ...

## 6 Trefnu gwaith cynnal a chadw rheolaidd i’r eglwys

Mae colli cyn lleied o wres â phosibl a cheisio osgoi treiddiad lleithder yn eich adeiladau’n rhan bwysig o helpu i leihau eich ôl troed carbon. Felly, mae trefnu cynllun cynnal a chadw rheolaidd yn rhan allweddol o unrhyw gynllun gweithredu da ar gyfer yr hinsawdd.

Ewch ati i atal drafftiau, trwsio ffenestri sydd wedi torri a chlirio unrhyw sbwriel o gwteri a pheipiau glaw. Mae’n bwysig archwilio’r systemau gwresogi a goleuo yn rheolaidd hefyd oherwydd gellir sylwi ar broblemau’n gynnar a’u datrys. Yn ei dro, bydd hyn yn eich helpu i redeg y systemau mor effeithlon â phosibl.

I’ch helpu i gynllunio gwaith cynnal a chadw rheolaidd mewn ffordd drefnus, defnyddiwch y camau yn Adran A y ddogfen **Llwybr Ymarferol i Sero Net**:
www.churchinwales.org.uk/climatechange

## 7 Trefnu archwiliad ynni ar gyfer eich eglwys

Trwy gynnal archwiliad ynni, cewch asesiad manwl o’r cyd-destun a’r defnydd o ynni yn eich eglwys. Caiff ei gynnal gan archwilydd ynni profiadol a chymwys. Bydd yn eich helpu i ddeall sut y gallech arbed ynni a’r opsiynau carbon isel yn y dyfodol a allai fod yn addas ar gyfer eich eglwys. Cysylltwch â’ch esgobaeth i drefnu archwiliad ynni.

Pan gynhelir yr archwiliad ynni ynghyd â’r arolwg pum mlynedd, cewch drosolwg o anghenion eich adeilad. Yr hyn sy’n bwysig yw y bydd yn eich galluogi i gynllunio ar gyfer holl waith uwchraddio a chynnal a chadw’r adeiladau ar yr un pryd, cyn bod gofyn i chi adnewyddu’r systemau gwresogi a/neu oleuo presennol. Trwy gael rhybudd ymlaen llaw o’ch opsiynau gwresogi carbon isel ar gyfer y dyfodol, bydd gennych amser i gyllidebu a chodi arian hefyd. Gallai’r archwiliad ynni fod yn ddogfen ddefnyddiol i ategu unrhyw gynigion ar gyfer ariannu hefyd.

## 8 Datblygu strategaeth benodol ar gyfer gwresogi

Gwresogi yw ffynhonnell mwyafrif llethol yr allyriadau carbon a gynhyrchir gan eglwys ac felly mae’n dilyn bod rhoi’r gorau i losgi olew a nwy’n gam hanfodol i eglwysi er mwyn cyflawni sero net. Gallai pob eglwys ddefnyddio canfyddiadau’r adroddiad archwilio ynni wrth lunio strategaeth fanwl ar wresogi a chynllun gweithredu sero net penodol, gan amlinellu camau gweithredu tymor byr (o fewn dwy flynedd), tymor canolig (dwy i bum mlynedd) a thymor hwy (pum mlynedd a mwy). Gallai’r ddogfen hon fod yn ychwanegol at eich cynllun gweithredu ar yr hinsawdd.

Fel rhan o’r strategaeth wresogi, gallech fynd ati i ymchwilio i’r argymhellion gwresogi adnewyddadwy carbon isel a amlinellir yn eich archwiliad ynni ac ystyried defnyddio offer trydan yn lle’r systemau gwresogi nwy neu olew.

## Newid y tariff ynni i dariff trydan gwyrdd a bio-nwy gwyrdd 9

Mae'r rhan fwyaf o gwmnïau ynni'n cynnig tariff ynni gwyrdd, er y dylech gofio bod rhai yn fwy gwyrdd nag eraill. Dyma ganllaw defnyddiol: *Green electricity tariffs | Centre for Sustainable Energy* (cse.org.uk).

Mae'r argyfwng ynni presennol yn golygu nad yw'r bargeinion gwyrddaf ar gael ar hyn o bryd ond dylech gadw llygad ar y farchnad wrth i amgylchiadau newid. Gall yr adnodd hwn eich helpu i gadw golwg ar newidiadau: *Compare Green Energy Suppliers | Big Clean Switch* (bigcleanswitch.org)

## 10. Gwrthbwyso gweddill eich allyriadau

Unwaith y byddwch wedi lleihau eich defnydd o ynni gymaint â phosibl, gallwch wrthbwyso gweddill allyriadau eich eglwys drwy gynlluniau gwrthbwyso dibynadwy, fel *Climate Stewards* (climatestewards.org) - *Climate Stewards*, i ddod yn eglwys sero net.

Hefyd, ac os yw'n berthnasol, ystyriwch ddad-ddofi rhannau o dir eich eglwys a phlannu coed i helpu i ddal carbon yn naturiol o'r awyr yn lleol. Yn ogystal, efallai y byddai cynnal gweithgareddau megis eglwys goedwig yn dangos i eraill eich ymrwymiad i'r hinsawdd ac yn fodd o genhadu yn y gymuned gan alluogi pawb i werthfawrogi rhyfeddodau byd natur.

**www.churchinwales.org.uk/climatechange**







